Ymhellach i'm neges ebost ar 9 Medi 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a gyflwynwyd gennych ar 8 Medi 2015. Mae'r atebion i'ch cwestiynau wedi'u nodi isod mewn print trwm:

1) Dan **O.S.2010 Rhif 131** Rheoliadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cyfansoddiad a Rheolau'r Drefn) (Diwygio) 2010 ac yn dilyn hynny **O.S.2013 Rhif 1237** Rheoliadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cyfansoddiad a Rheolau'r Drefn) 2013, faint o ffurflenni ET1 ydych chi wedi'u cael ar gyfer 2013, 2014 a 2015? Nodwch y wybodaeth fesul blwyddyn os yw hynny'n bosibl.

Dim un yn 2013 a 2014. Dau yn 2015.

2) Faint o'r ffurflenni ET1 oedd yn cynnwys gwybodaeth yr oeddech chi'n ei hystyried yn rhan o'ch cylch gwaith, fesul blwyddyn?

Nid oedd y naill yn berthnasol i'n cylch gwaith, ac roedd y llall yn berthnasol i'n cylch gwaith mewn modd anuniongyrchol.

3) O'r ffurflenni hyn, sawl un ohonynt oedd yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi dechrau ymchwiliad neu gyfrannu at ymchwiliad, fesul blwyddyn?

Dim un. Ond bu i ni roi gwybod i drydydd parti perthnasol am y pryderon a godwyd yn yr achos a oedd yn berthnasol i'n cylch gwaith mewn modd anuniongyrchol.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais mae croeso i chi anfon ebost neu lythyr ataf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Ian Phillips